

COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

BWLETIN PCC

Rhif 15 – 21 Rhagfyr 2012

Y pymthegfed bwletin hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau rheolaidd i roi gwybod i bartneriaid a swyddfa'r PCC am faterion sydd o ddiddordeb yn y tirlun diwygio'r heddlu yn dilyn ethol comisiynwyr yr heddlu a throseddau. Bydd y bwletinau hyn yn parhau yn awr bod y Comisiynwyr yn eu swyddi, ac mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Adroddiad Grant Heddlu Dros Dro a'r Gronfa Diogelwch Cymunedol
- Adborth o Ddigwyddiad Croesawu'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 3 Rhagfyr
- Comisiynu gwasanaethau dioddefwyr
- Llythyr i'r Comisiynwyr gan Helen Grant, Gweinidog dros Ddioddefwyr a'r Llysoedd
- Digwyddiad briffio cenedlaethol yr APCC – 'Gweithio gyda'r System Gyfiawnder Droseddol'
- Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
- Nodyn canllaw – Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn 2007
- HMIC - gweithio gyda chomisiynwyr yr heddlu a throseddu

Adroddiad Grant Heddlu Dros Dro a'r Gronfa Diogelwch Cymunedol

Ar 5 Rhagfyr gwnaeth y Canghellor ei Ddatganiad yr Hydref a chyhoeddi gostyngiadau pellach i gyllidebau Adrannau. Ar yr un diwrnod fe ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at y Comisiynwyr i ddarparu sicrwydd y byddai cyllid yr heddlu wedi ei ddiogelu yn 2013-14. Cyflwynwyd yr Adroddiad Grant yr Heddlu Dros Dro 2013-14 gerbron Gweinidogion yn y Senedd ar y 19 Rhagfyr. I gyd-fynd â'r adroddiad cafwyd datganiad gweinidogol ysgrifenedig oedd yn darparu manylion cyllid Llywodraeth ganolog ar gyfer yr heddlu, gan gynnwys dyraniadau i Gomisiynwyr o'r Gronfa Diogelwch Cymunedol (CSF). Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at yr holl Gomisiynwyr ar 19 Rhagfyr ynglŷn â'r Adroddiad Grant yr Heddlu Dros Dro, gan gynnwys manylion am eu cyllid i'r CSF.

Mae'r Gronfa Diogelwch Cymunedol yn gronfa sengl newydd y gellir ei defnyddio gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddu i fuddsoddi mewn atal troseddau, cyffuriau, a gweithgareddau diogelwch cymunedol.

Bydd llythyrau grant a chytundebau ar gyfer y Gronfa Diogelwch Cymunedol yn cael eu cyhoeddi tua'r un adeg â gosod yr Adroddiad Grant yr Heddlu Terfynol yn Chwefror 2013.

Mae'r datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar gael trwy ddilyn y ddolen:

http://www.parliament.uk/documents/commons-vote-office/December_2012/19-12-12/13.HOME-Police-Funding.pdf

Adborth o Ddigwyddiad Croesawu Comisiynwyr

Roedd y Ddigwyddiad Croesawu Comisiynwyr ar 3 Rhagfyr yn y Swyddfa Gartref yn boblogaidd iawn ymysg Comisiynwyr. Roedd yn ddefnyddiol i Weinidogion wrando ar Gomisiynwyr yn trafod eu blaenoriaethau a phryderon, ac adroddodd nifer o'r Comisiynwyr yn ôl eu bod yn gwerthfawrogi cael mynediad at Weinidogion ac uwch swyddogion. Cododd rhai themâu cyffredin yn ystod y dydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pryderon am ariannu
- Rôl y Comisiynwyr yn y system gyfiawnder droseddol
- Grymoedd y Comisiynwyr
- Gwasanaethau dioddefwyr a chomisiynu
- Rheoli troseddwy'r integredig; ac
- Atal troseddu a lleihau aildroseddu

Comisiynu gwasanaethau dioddefwyr

Bydd Comisiynwyr yn derbyn cyfrifoldeb am gomisiynu'r rhan fwyaf o wasanaethau dioddefwyr o 2014.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu fframwaith i helpu pob Comisiynydd i gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr ar gyfer eu cymuned. Mae'r adran wedi sefydlu dau grŵp cyfeirio i helpu datblygu a llunio'r gwaith hwn. Bydd un o'r grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfeydd Comisiynwyr (Cumbria a Dyfnaint a Chernyw) yn ogystal â'r Gymdeithas Plismona a Phrif Weithredwyr Troseddu (APACE) gyda swyddogion o bob rhan o Whitehall gydag arbenigedd a gwybodaeth o gomisiynu. Bydd yr ail yn ymwneud â'r sector gwirfoddol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar gomisiynu yma. <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/working-with-others/supporting-victims-and-witnesses?view=Binary>

Y bwriad yw cwblhau'r fframwaith newydd a'i dosbarthu i'r Comisiynwyr yn y Gwanwyn 2013. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu cyllideb ddangosol i Gomisiynwyr (ar gyfer 2014/15) o faint y gallent dderbyn i wario ar wasanaethau dioddefwyr. Bydd Comisiynwyr a'u staff yn gallu dysgu mwy am strategaeth y dioddefwyr, gan gynnwys comisiynu lleol, mewn digwyddiad APCC i ddod ym mis Chwefror. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar sut y gall Comisiynwyr weithio'n effeithio gyda'r system gyfiawnder droseddol a bydd yn cynnwys gweithdai ar wahanol feysydd o'r System Gyfiawnder Droseddol, gan gynnwys y diwygiadau i wahanol feysydd o bolisi dioddefwyr (gweler ymhellach ymlaen).

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi Adolygiad Tystiolaeth ac Ymarfer yn ddiweddar a edrychai ar arfer presennol a thystiolaeth bresennol ar anghenion cefnogaeth dioddefwyr, mesuriad deiliant a sicrwydd ansawdd yn y sector cefnogaeth i ddiodefwyr. Mae'r adolygiad yn cysylltu i ddatblygiad y fframwaith comisiynu, yn arbennig gyda'i bwyslais ar fesur deilliannau a sicrwydd ansawdd gwasanaethau. Gellir ei weld yma: <http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj/evidence-and-practice-review-of-support-for-victims-and-outcome-measurement>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar gomisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gallwch gysylltu â:

Nadia Rosun - nadia.rosun@justice.gsi.gov.uk

Yvonne Murray - yvonne.murray@justice.gsi.gov.uk

Jacqui Fincham - jacqueline.fincham@cjs.gsi.gov.uk

Llythyr i'r Comisiynwyr gan y Gweinidog dros Ddioddefwyr a'r Llysoedd; penodi Comisiynydd Dioddefwyr

Ar 17 Rhagfyr, ysgrifennodd Helen Grant, y Gweinidog dros Ddioddefwyr, at y comisiynwyr i'w croesawu i'w rôl ac yn sefydlu datblygiadau a ragwelir rhwng nawr a'r Gwanwyn.

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder Chris Grayling ar Ddydd Gwener 21 Rhagfyr benodiad y Farwnes Helen Newlove fel y Comisiynydd Dioddefwyr newydd.

Bydd y penodiad hwn yn sicrhau fod lleisiau dioddefwyr a thystion yn cyrraedd calon y Llywodraeth, gan sicrhau yr hyrwyddir eu hanghenion a bod y Llywodraeth yn cyflawni ar ei ymroddiadau.

Bydd penodiad y Farwnes Newlove yn parhau am dair blynedd a bydd ei rôl yn cynnwys:

- Ymgysylltu â dioddefwyr a grwpiau tystion, arweinwyr lleol a chenedlaethol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i greu darlun o'r profiad presennol i ddiodydefwyr a thystion yn y system gyfiawnder droseddol (CJS);
- Cynghori'r Llywodraeth ar farnau gan ddiodydefwyr a thystion ar arfer da presennol yn y CJS a meysydd ar gyfer gwaith yn y dyfodol;
- Cyfrannu i adolygiad y Llywodraeth o'r cod Dioddefwyr i sicrhau fod y fersiwn newydd yn darparu llawer mwy o eglurder i ddiodydefwyr ar eu hawliau gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Digwyddiad briffio cenedlaethol yr APCC – 'Gweithio gyda'r System Gyfiawnder Droseddol'

Mae'r APCC yn cynnal digwyddiad cenedlaethol ar 23 Ionawr a chyfres o ddigwyddiadau thema yn 2013. Ar 21 Chwefror 2013, bydd yr APCC yn cynnal digwyddiad briffio cenedlaethol i Gomisiynwyr, partneriaid statudol cenedlaethol a lleol ar 'Weithio gyda'r System Gyfiawnder Droseddol'. Cynhelir y digwyddiad hwn yng nghanol Llundain ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Eryl y Goron, a bydd yn gyfle i glywed am a thrafod rhai o'r datblygiadau a chyfleoedd o fewn cyfiawnder troseddol a'r rôl bwysig sydd gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddu. Bydd gwahoddiadau i fynychu yn cael eu dosbarthu ar ddechrau Ionawr. Cysylltwch â Laurie Kremer (laurie.kremer@marketing.apccs.police.uk) am ragor o wybodaeth.

Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ar 13 Rhagfyr cyhoeddodd y Llywodraeth ei Fil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft ar gyfer craffu arno cyn y broses ddeddfu gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref (HASC). Mae'r Bil drafft yn cynnwys chwech o rymoedd hyblyg a mwy effeithiol, a dau fesur newydd pwysig i helpu canolbwyntio'r ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar anghenion dioddefwyr:

- gorchymyn llys newydd (y **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol**) ar gael ar euogfarn yn galluogi llysoedd i stopio ymddygiad yr unigolion mwyaf dinistriol ac i ddelio ag achosion sylfaenol yr ymddygiad hwnnw – un o brif fethiannau'r ASBO;
- gwaharddeb sifil newydd (y **waharddeb Atal Troseddu**) y gall asiantaethau ddefnyddio ar unwaith i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau. Gellid cyhoeddi'r rhain o fewn dyddiau, neu hyd yn oed oriau, ble fo angen;
- grymoedd symlach i gau eiddo sy'n denu trwl a hefyd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol eraill (megis graffiti, sbwriel a baw ci) sy'n difwyno nifer o gymunedau;
- pŵer mwy effeithiol i'r heddlu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus; a
- cynigion i gyflymu'r broses o ddadfeddiannu rhai o'r tenantiaid mwyaf gwrthgymdeithasol, i atal 'cymdogion hunllefus' rhag dinistrio bywydau'r rhai o'u cwmpas.

Bydd yr **Ysgogydd Cymunedol** yn rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau ofyn i asiantaethau ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson a anwybyddwyd yn flaenorol. Gallai'r ysgogydd gael ei roi ar waith gael aelod o'r cyhoedd, cymuned neu fusnes os yw cwynion mynychu am ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu hanwybyddu.

Bydd y **Datrysiad Cymunedol** yn rhoi llais i ddioddefwyr troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth gosbi troseddwr tu allan i'r llys. Mae hyn yn golygu y bydd dioddefwyr yn cael cyfiawnder yn fuan, a bod yn rhaid i'r troseddwr wynebu canlyniadau uniongyrchol ac ystyrlon i'w gweithredoedd. Mae'r Llywodraeth yn cyflawni ymgynghoriad cyhoeddus ar y Datrysiad Cymunedol. Mae hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref (www.homeoffice.gov.uk/community-remedy). Rydym yn awyddus i glywed barnau comisiynwyr yr heddlu a throseddu ar y cynnig newydd.

Mae'n bwysig ein bod yn llwyddo gyda'r ddeddfwriaeth hon y tro cyntaf, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr i ddatblygu'r cynigion. Rydym yn awyddus fod Comisiynwyr, yr heddlu, cynghorau, landlordiaid, dioddefwyr a buddgyfranogwyr eraill yn ymgysylltu yn y broses o graffu arno cyn y broses ddeddfu, a cheir manylion sut i ymateb yn www.parliament.uk/homeaffairscom.

Gellir gweld y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft yma: [Gwefan y Swyddfa Gartref](#).

Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol

Mae'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn ganolog i ddiwygiadau ehangach y Llywodraeth i'r tirlun plismona; datganoli grymoedd i gymunedau lleol, tra'n sicrhau ymateb cryf i fygythiadau ar lefel genedlaethol. Cyflwynwyd y Bil Troseddau a'r Llysoedd, a fydd yn darparu sylfaen gyfreithiol i'r Asiantaeth troseddau Cenedlaethol, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Rhagfyr, gyda chamau Ail Ddarlleniad Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor yn dilyn y Flwyddyn Newydd. Yn amodol i ewyllys da y Senedd, mae'r Bil ar ei ffordd i dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn y gwanwyn 2013, a fyddai yn galluogi'r NCA i ddod yn weithredol erbyn diwedd 2013.

Mae rhaglen yr NCA yn parhau i sicrhau cynnydd arwyddocaol ar adeiladu'r asiantaeth, mewn cydweithrediad ag asiantaethau a phartneriaid oedd yn ei ragflaenu. Cafwyd cynnydd pellach ar y swyddogaethau a gweithrediadau cysgodol, sydd nawr yn profi sut fydd yr NCA yn gweithredu yn y cyfnod cyn iddo ddod yn gwbl weithredol.

Bydd yr APCC yn darparu briffio atodol ar yr NCA yn fuan.

Am ragor o wybodaeth ar yr NCA a'r Bil, ewch i:

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/about-us/legislation/crime-courts-part1/>

Nodyn canllaw – Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) 2007

Mae nodyn canllaw i esbonio'r addasiadau a wnaed i'r Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) 2007 sy'n gofyn i bartneriaethau diogelwch cymunedol rannu eu cynlluniau partneriaeth wedi ei gyhoeddi. Mae'r nodyn yn esbonio am rannu trefniadau diogelwch cymunedol gyda'r Comisiynydd, a grym y Comisiynydd i alw ynghyd cynrychiolwyr yr awdurdodau hyn ar draws eu hardal heddlu i fynychu cyfarfod. Mae'r nodyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/community-safety-partnerships>

HMIC – gweithio gyda comisiynwyr yr heddlu a throseddu

Mae HMIC wedi cynhyrchu cyfathrebiad yn darparu manylion beth maent yn wneud i weithio gydag a chefnogi Comisiynwyr. Mae'r daflen hon yn crynhoi:

- sut mae'r HMIC yn bwriadu rhannu arbenigedd a gwybodaeth mewn modd amserol, targedig a defnyddiol gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu;
- cyfuniad arfaethedig yr HMIC o gyfarfodydd a drefnwyd a diweddariadau yn ôl yr angen i Gomisiynwyr; a
- sut fydd HMIC yn ymgynghori â Chomisiynwyr ar y ffordd orau i gydweithio yn y dyfodol.

Dilynwch y ddolen i'r daflen ar wefan yr HMIC:

<http://www.hmic.gov.uk/publication/working-with-police-and-crime-commissioners-122012/>

Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd i bartneriaid a swyddfa comisiynwyr yr heddlu a throseddu. Cysylltwch â ni yn PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk i gael gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd ar y gweill a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych.

Anfonwch syniadau a chynigion ar gyfer cynnwys bwletinau'r dyfodol i'r cyfeiriad hwn hefyd os gwelwch yn dda.